# Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen

# 11/10/25

## LLENYDDIAETH

***Cyflwynir Tlws Mr a Mrs John Emanuel i'r gwaith gorau yn yr adran lên. Bydd y buddugol yn cael cadw'r tlws am flwyddyn yn unig.***

| | | |
|---|---|---|
| 46. CYSTADLEUAETH GOFFA STELLA TREHARNE—TLWS YR IFANC (dan 21 oed):<br>*Testun - 'Dianc'*<br>Un o'r canlynol - Stori Fer, Dyddiadur, Cerdd neu Ysgrif | | £25 |
| 47. Brawddeg ar y gair: Delian | | £5 |
| 48. Cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 30 llinell: *"Gardd"*<br>(*Noddir y gadair gan Grwydriaid Crwbin)* | | Cadair wydr a £40 |
| 49. Cyfansoddi Emyn: Heddwch | | £15 |
| 50. Gorffen Limrig: 'I'r Ewros aeth tîm merched Cymru' | | £5 |
| 51. Brysneges ar y llythyren 'S' | | £5 |
| 52. Englyn: *yn cynnwys enw unrhyw aderyn* | | £10 |
| 53. Ysgrif neu Stori Fer: Tacluso | | £10 |
| 54. I ddysgwyr: Darn ysgrifenedig - Fy Ardal | Tlws er cof am Mr Tony Sauro | £10 |

*Anfoner y cyfansoddiadau Llên, ynghyd â ffugenw ar bob ymgais at yr Ysgrifennydd erbyn dydd Sadwrn **4ydd o Hydref, 2025** a hynny drwy'r post neu'r e-bost:*

***Mrs Davinia Davies, Pantypwll, 129 Heol y Banc, Bancffosfelen, Llanelli SA15 5DW daviniaharries@hotmail.com***

*Yn ogystal, mae'n rhaid rhoi'r ffugenw, rhif y gystadleuaeth, ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad. Rhodder hynny ar ddalen ar wahân yn achos ymgais drwy'r post neu mewn man arall yn y neges yn achos ymgais drwy'r e-bost. Hefyd yng nghystadleuaeth y Gadair a Thlws yr Ifanc, mae'n rhaid cynnwys eich rhif ffôn.*

*Os ydynt am gael eu heiddo yn ôl, dylai ymgeiswyr yn yr Adran Lenyddiaeth anfon amlen, sydd yn dwyn stamp a chyfeiriad, at yr Ysgrifennydd.*

*Tynnir y tâl mynediad o'r wobr onid yw'r buddugol yn bresennol.*